PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 14 MAI 2021, trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Ms Samantha Blackie (tan gofnod 68.2); Ms Kate Eden; Ms Meri Huws; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Ms Rhuanedd Richards (o gofnod 61); Ms Fiona Sharp; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 65); a Mr Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (ar gyfer cofnod 65).

**55. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. John Dawes, Cymrawd Anrhydeddus;
   2. Miles Spink, a weithiai yn y Ganolfan Saesneg Ryngwladol; a
   3. Sallie Jones, a weithiai ar y Prosiect Uwch-gynhyrchu Cyfryngau.

2. Ymweliad Sicrhau Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

   1. Ar 30 Ebrill 2021, cyfarfu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor â swyddogion y Cyngor Cyllido yn rhan o'u hymweliad sicrhau ansawdd sy'n digwydd bob tair blynedd. Oherwydd yr amgylchiadau cyfredol, cynhaliwyd yr ymweliad yn rhithiol.

   2. Roedd yr ymweliad sicrhau ansawdd yn rhan o brosesau sefydledig y Cyngor Cyllido, a oedd yn cynnwys yr Ymweliad Sicrwydd Ansawdd Sefydliadol cyffredinol a phrosesau Sicrwydd *Prevent* a gynhaliwyd yn yr hydref 2020. Byddai'r rhain yn bwydo i'r Ymweliad Sefydliadol y trefnwyd ei gynnal ar 08 Gorffennaf 2021, lle bydd aelodau Cyngor CCAUC yn cynnal cyfarfod ar y cyd â Chyngor y Brifysgol.

3. Dirprwy Ganghellor

   1. Yn draddodiadol, mae'r Brifysgol wedi penodi dau Ddirprwy Ganghellor. Yn dilyn ymgynghori â'r Canghellor, yr Arglwydd Thomas, teimlwyd y byddai'n amser priodol yn awr i benodi ail Ddirprwy Ganghellor, i wasanaethu ochr yn ochr â'r Athro Elan Closs Stephens.

2. Byddai Ysgrifennydd y Brifysgol yn cychwyn y drefn yn ffurfiol ddechrau'r wythnos nesaf trwy wahodd enwebiadau. Caiff y rhain eu hystyried yn y lle cyntaf gan Bwyllgor Dewis, yn unol â'r Ordinhadau, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhelliad i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 09 Gorffennaf 2021.

4. Sesiwn Wybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i aelodau'r Cyngor ynglŷn â phrosiect yr Hen Goleg. Byddai recordiad o'r sesiwn - a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr o'r penseiri a'r cwmni a gyflogwyd i weithio ar yr agweddau deongliadol - ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

5. Dull cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly yn cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**56. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Roedd nifer o aelodau'r Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Er y byddai'r corff llywodraethu yn ystyried gohebiaeth yn gysylltiedig â'r USS yn ystod y cyfarfod, ni farnwyd bod angen i unrhyw aelod ymesgusodi o'r trafodaethau hynny.

**57. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021 (COU2021-116).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**58. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2021-117).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**59. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-118).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Cymeradwywyd y canlynol gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor:

   1. <u>Ordinhad 6 - Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor</u>

      Gwnaed mân newid i droednodyn yn yr Ordinhad hwn yn dilyn ychwanegiad i Gynllun Gweithredu Camm y cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) arno ar 25 Chwefror 2021. Roedd y troednodyn yn ymwneud â'r diffiniad o swyddogaeth Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn 'Uwch Lywodraethwr Annibynnol'. Cafodd copi o'r Ordinhad diwygiedig ei gyhoeddi ar-lein ers hynny.

**60. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**61. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2021-119).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor ar ei hethol yn ddarpar Gadeirydd Prifysgolion Cymru - swydd sy'n cynnwys Is-lywyddiaeth *Universities UK* (UUK), a thrwy hynny'n sicrhau cyfrannu ar ran y Brifysgol ar lefel Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG).

3. Roedd yr Is-Ganghellor wedi ysgrifennu at Elin Jones i'w llongyfarch ar gael ei hail-ethol yn aelod Senedd ar ran Ceredigion. Roedd llythyrau tebyg wedi eu hanfon at y rhai a etholwyd ar 06 Mai 2021 i gynrychioli rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â'r rhai a etholwyd i gynrychioli etholaethau de-orllewin Cymru.

4. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi datgan yn ddiweddar mai Jeremy Miles AC fyddai'n gwasanaethu'n Weinidog Addysg a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru (LLG). Ers hynny, roedd yr Is-Ganghellor wedi gwahodd Mr Miles i ymweld â'r Brifysgol. Roedd y sefydliad hefyd wedi ysgrifennu at weinidogion eraill gyda'r bwriad o sefydlu cyswllt â hwy, gan gynnwys Gweinidog yr Economi y disgwylir a fydd yn gyfrifol am ymchwil a dyfeisgarwch.

5. Roedd yr Is-Ganghellor yn rhagweld y byddai'n cael cais i roi cyflwyniad ynglŷn â datblygiadau diweddar yn y Brifysgol yn rhan o'r Ymweliad Sefydliadol rhithiol ar 08 Gorffennaf 2021. Gwahoddid aelodau'r Senedd felly i gynnig pynciau i'w cynnwys yn y cyflwyniad. Roedd y pynciau a gynhwyswyd yn cynnwys: ymgysylltiad dinesig a gwaith partneriaeth yn ystod y pandemig, adolygiad canol cyfnod y strategaeth sefydliadol, ac ymwybyddiaeth y Brifysgol o'r cymorth ariannol ychwanegol a ddarparwyd i'r sector gan y Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.

6. Roedd nifer ceisiadau am fynediad ym mis Medi 2021 gan fyfyrwyr o'r DG yn dal yn uchel. Roedd y sefydliad nawr yn canolbwyntio ar drosi'r rhain yn dderbyniadau cadarn.

7. Hefyd, roedd y Brifysgol yn gweld cynnydd mewn ceisiadau gan fyfyrwyr rhyngwladol, a chynnydd da yn y derbyniadau. Bydd y Brifysgol yn gweithio gyda sefydliadau cyfatebol yn y sector ar ddull cyffredin i groesawu myfyrwyr o wledydd ar y 'rhestr goch' sy'n dymuno astudio yn y DG gan fod, ar hyn o bryd, rhwystrau sylweddol iddynt ddod i Brifysgol Aberystwyth.

8. Anogwyd yr Is-Ganghellor gan yr aelodau i ystyried cyfleoedd i gynnig rhaglenni yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol, i adeiladu ar yr hyfforddiant arfaethedig i nyrsys. Dywedodd yr Is-Ganghellor fod y sefydliad yn parhau i drafod â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn ag amrywiol ddatblygiadau posibl. Cytunodd yr Is-Ganghellor i archwilio i raglenni addas i'r Brifysgol.

**62. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-120).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch. Bydd adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ll&Ch ar 17 Mehefin 2021.

2. Gofynnodd yr aelodau a oedd nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau a gofnodwyd ers 01 Ionawr 2021 yn gywir. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol fod y ffigwr yn yr adroddiad yn gywir, a'i fod yn adlewyrchu'r cynnydd yn y defnydd a oedd yn cael ei wneud o'r drefn adrodd fewnol newydd. Ond, dim ond canran fach o'r adroddiadau y bu'n rhaid eu harchwilio ymhellach.

**63. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2021-121).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor cynhaliwyd etholiadau ar gyfer swyddogion UMAber am 2021-22, a chafodd tîm o ferched eu hethol yn swyddogion amser llawn. Byddent yn dechrau yn eu swyddi newydd ar 01 Gorffennaf 2021.

3. Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am y prosiect 'Mamau Aber', a fyddai'n cysylltu myfyrwyr sy'n unig neu'n hiraethus ag aelod o'r gymuned leol er mwyn creu cyfeillgarwch. Roedd yr ystyriaethau diogelu perthnasol yn cael sylw ar hyn o bryd, gyda golwg ar lansio'r cynllun yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

4. Bu Swyddog Materion Academaidd UMAber yn cynnal grwpiau ffocws gyda myfyrwyr i geisio cael adborth am eu profiadau yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Byddai

hyn yn rhoi'r Undeb a'r Brifysgol mewn sefyllfa i weld pa agweddau ar brofiad y myfyrwyr a oedd wedi gweithio yn amgylchiadau cyfredol y pandemig ac y gellid eu cadw yn y dyfodol. Byddai crynodeb o'r adborth a dderbynnir yn cael ei rannu ag aelodau'r Cyngor [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**64. DIWEDDARIAD ARIANNOL**

1. <u>Adroddiad Ariannol Mis 8</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-122).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad ariannol y Brifysgol tan ddiwedd Mis 8 (31 Mawrth 2021). Roedd gwelliant pellach i'r sefyllfa o'i gymharu â'r gyllideb y cytunwyd arni nawr yn cael ei ragweld am y flwyddyn. Roedd y gwelliant hwn yn cael ei dadogi'n gyffredinol i'r cymorth ariannol a gafodd y sector yng Nghymru gan y Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cymru.

2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2021.

2. <u>Cyllideb 2021-22: Rhagdybiaethau Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-123).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno rhagdybiaethau bras y cynllunio ariannol a fyddai'n sail i ddatblygu cyllideb gyflawn y sefydliad am 2021-22. Cafodd fersiwn flaenorol yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor A&Ph yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2021.

2. Er bod y Brifysgol yn gobeithio y gellir darparu amserlen addysgu fwy arferol o fis Medi 2021, roedd yn anorfod y byddai parhad yn rhyw lefel o gostau rheoli haint. Roedd yr ansicrwydd ynglŷn â nifer y myfyrwyr rhyngwladol a fyddai'n cofrestru yn yr hydref hefyd yn dylanwadu ar agwedd ofalus tuag at ddatblygu'r gyllideb, yn ogystal â'r incwm cynadleddau a gollwyd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gan nad oes cynadleddau mawrion wedi eu harchebu yn y Brifysgol dros yr haf.

3. Roedd y rhagolygon ariannol y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2019 ar ôl cwblhau'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn nodi y byddai gweddill yn cael ei dargedu yn 2021-22. Ond, atgoffwyd yr aelodau bod y rhagolygon diwygiedig y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2020 wedi rhoi ystyriaeth i effeithiau pandemig COVID-19 ac wedi dangos ei bod yn debygol y byddai angen cyllideb mewn diffyg am y flwyddyn ariannol i ddod.

4. Wrth ystyried y cynigion ar 23 Ebrill 2021, mynegodd aelodau'r Pwyllgor A&Ph eu dymuniad i gyflawni cyllideb alldro yn 2021-22 a fyddai'n dod mor agos â phosibl i fantoli’r cyfrifon. Yn yr un modd, roedd y Cyngor Cyllido wedi hysbysu'r sector bod

disgwyl i gyllidebau prifysgolion am 2021-22 fod yn realistig, ac y dylid cynnal dadansoddiadau sensitifrwydd priodol.

5. I gael y canlyniad ariannol gorau am y flwyddyn i ddod, byddai angen canolbwyntio blaenoriaethau'n ofalus ar brofiad y myfyriwr, a hynny o bosibl ar draul gweithgareddau eraill y byddai'r Brifysgol yn ddelfrydol yn hoffi eu cynnal.

6. Sylwyd bod y cyfeiriad at yr angen i hybu ymchwil wedi ei ddileu o'r papur yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor A&Ph. Cadarnhaodd yr Is-Ganghellor mai ar gais y Pwyllgor A&Ph i ddod mor agos â phosibl at alldro yn 2021-22 y gwnaed hyn, a bod hynny yn destun pryder iddi gan fod yr angen i hybu ymchwil yn mynd yn ddifrifol.

7. Roedd yr Is-Ganghellor a'r Weithrediaeth nawr yn datblygu'r gyllideb arfaethedig am 2021-22 yn fanwl. Byddai'r gyllideb arfaethedig yn cael ei chyflwyno i'w hystyried a'i chymeradwyo yn y cylch cyfarfodydd nesaf.

**65. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2021-124).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am gynnydd y prosiect, gan roi sylw arbennig i: gwmpas ac amserlen y prosiect; yr amcan diweddaraf o gostau'r prosiect; sefyllfa'r cyllid cyfatebol ar hyn o bryd; ac oblygiadau ariannol peidio â pharhau â'r prosiect.

2. Roedd un darpar gontractwr wedi tynnu allan o'r drefn dendro am y gwaith adeiladu, ac un arall wedi gofyn am estyniad i'r dyddiad cau gwreiddiol i gyflwyno tendr. Penderfynwyd felly ar ddyddiad cau newydd ar 25 Mehefin 2021, a fyddai'n gymwys i bob un o'r contractwyr sy'n weddill.

3. Y bwriad fu cynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor A&Ph i ystyried canlyniad y drefn dendro a chytuno ar argymhelliad i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ar 09 Gorffennaf 2021. Roedd newid dyddiad cau'r tendro'n golygu ei bod yn debygol y byddai cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor A&Ph a'r Cyngor yn cael eu cynnull yn ystod mis Gorffennaf i ystyried y cyflwyniadau.

4. Yn seiliedig ar yr amcanion diweddaraf o gostau cyfalaf, pe na ellid sicrhau mwy o arian o ffynonellau eraill, byddai angen i gyfraniad y Brifysgol gynyddu i £10.07m i wneud iawn am y diffyg.

5. Yn rhan o'r ymdrechion i ddatrys y diffyg cyfredol mewn cyllid cyfalaf i'r prosiect, bu'r Brifysgol yn trafod â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a oedd wedi gwahodd cais am gyllid ychwanegol tuag at y cynnydd yn y costau. I wneud cais am y cymorth ychwanegol, byddai angen i'r Brifysgol ymrwymo i dalu unrhyw ddiffyg sy'n weddill yn y cyfalaf, a thrwy hynny gynyddu cyfraniad y sefydliad i uchafswm o £8.77m. Byddai canlyniad y cais pellach hwn am gymorth o Gronfa'r Loteri yn hysbys cyn i'r Cyngor gymeradwyo penodi contractwr.

6. Ar 23 Ebrill 2021, ystyriodd y Pwyllgor A&Ph y cais ar i'r Brifysgol gynyddu uchafswm ei chyfraniad ariannol i'r prosiect, ac argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynnydd.

7. Cafwyd gwybod gan Gyngor Sir Ceredigion ei fod yn bwriadu datblygu cais am tua £20m o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth San Steffan i gynorthwyo mentrau adfywio lleol. Cynigiai'r awdurdod lleol i'r cais gynnwys ail gyfnod posibl i adnewyddiad yr Hen Goleg.

8. Ar 23 Ebrill 2021, ystyriodd aelodau'r Pwyllgor A&Ph fanteision ac anfanteision cyffredinol ail gyfnod o'r fath i brosiect yr Hen Goleg - gan gynnwys ystyried a oedd risg y gallai'r ychwanegiad amharu ar y prosiect presennol a'r cyllid a sicrhawyd hyd yn hyn. Ond, cytunodd yr aelodau y dylai'r Brifysgol gyflwyno mynegiant o ddiddordeb i geisio am gyllid o'r Gronfa Codi'r Gwastad yn y lle cyntaf, a chymryd camau cysylltiedig i sefydlu ymarferoldeb ail gyfnod.

9. Cafodd yr aelodau eu sicrhau y byddai angen ymarfer diwydrwydd dyladwy - gan gynnwys cynhyrchu cynllun busnes diwygiedig - er mwyn penderfynu a ddylid ymrwymo i gais cyflawn i'r Gronfa Codi'r Gwastad. Byddai'r Cyngor yn cael cais am gymeradwyaeth pellach fel sy'n briodol, wrth i unrhyw gynigion ffurfiol am ail gyfnod gael eu datblygu.

**PENDERFYNWYD**

10. Cynyddu ymrwymiad ariannol y Brifysgol i brosiect yr Hen Goleg i £8.77m, er mwyn gallu cyflwyno cais ychwanegol am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol].

## 66. CYNLLUN PENSIWN Y PRIFYSGOLION (USS)

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-125); a

2. Ymateb drafft i Arolwg Cyflogwyr UUK (COU2021-132).

NODWYD

3. Gwnaed gwerthusiad actiwaraidd o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn 2020, ac asesodd Ymddiriedolwr yr USS asedau ac atebolrwydd y gronfa i sicrhau bod ynddi ddigon o arian i dalu'r buddion diffiniedig a enillwyd eisoes, a bod y cyfraniadau i'r cynllun yn talu cost y buddion gwasanaeth yn y dyfodol.

4. Yn bennaf oherwydd y dirywiad economaidd yn sgil Cofid, roedd Ymddiriedolwr yr USS yn amcanu bod diffyg technegol y cynllun, sef £3.6bn yng ngwerthusiad 2018, wedi cynyddu i £9.8bn - £17.9bn yn y gwerthusiad diweddaraf. Yn ôl y gyfraith, roedd yn rhaid i'r Ymddiriedolwr gymryd camau i wella'i sefyllfa ariannol ac roedd wedi nodi cyfres o sefyllfaoedd posibl a fyddai'n golygu cynyddu cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, a diwygio'r mesurau i ddiogelu cyfamod y cyflogwyr.

5. Ers hynny mae'r UUK wedi lansio ymgynghoriad ffurfiol â chyflogwyr ynglŷn ag opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â chostau cynyddol yr USS, y diffyg sylweddol, a graddfa uchel yr aelodau sy'n gadael y cynllun. Roedd y Brifysgol wedi gofyn am farn staff sy'n aelodau o'r USS, i fod yn sail i ymateb y sefydliad i ymgynghoriad yr UUK.

6. Ystyriwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol gan y Pwyllgor A&Ph ar 23 Ebrill 2021, ac argymhellodd yr aelodau y dylid cyflwyno ymateb arfaethedig y Brifysgol i ymgynghoriad yr UUK i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Ar y pryd, nid oedd arolwg mewnol o farn staff wedi ei gwblhau.

7. Roedd yr arolwg staff wedi cau ar 09 Mai 2021. Cynhwyswyd crynodeb o'r canlyniadau yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ar wahân i aelodau'r Cyngor ynghyd ag ymateb arfaethedig y sefydliad i ymgynghoriad UUK.

**PENDERFYNWYD**

8. Cymeradwyo ymateb arfaethedig y Brifysgol i ymgynghoriad UUK, i'w gyflwyno erbyn y dyddiad cau ar 24 Mai 2021 [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

**67. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU2021-126).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad y sefydliad ar 31 Ionawr 2021 yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt i fonitro cynnydd Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Oherwydd amserlen cyfarfodydd y Cyngor am y flwyddyn nid oedd adroddiad trydydd chwarter 2020-21 ar berfformiad yng nghyswllt y dangosyddion wedi ei gynhyrchu hyd yn hyn. Roedd y fersiwn a ddosbarthwyd i'r Cyngor felly'r un peth â'r un a gyflwynwyd i gyfarfod blaenorol y Cyngor.

**68. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Dirprwy Gadeirydd y Cyngor</u>

NODWYD

Ar 31 Gorffennaf 2021, bydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, yn dod i ben ei gyfnod ar y corff llywodraethu. Yn unol ag Ordinhad 6, gwahoddwyd mynegiant o ddiddordeb gan aelodau annibynnol y Cyngor er mwyn penodi Dirprwy Gadeirydd newydd. Derbyniwyd un mynegiant o ddiddordeb.

**PENDERFYNWYD**

Penodi Meri Huws yn ffurfiol yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor o 01 Awst 2021, am weddill ei chyfnod ar y corff llywodraethu [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. <u>Aelodau Annibynnol ar y Cyngor a'r is-bwyllgorau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-127).

NODWYD

1. Bydd tymor sawl un o'r aelodau ar y Cyngor a'r is-bwyllgorau yn dod i ben ar 01 Awst 2021. Nid oedd rhai o'r unigolion hyn ar dir i'w hailethol am dymor pellach, neu roeddent wedi rhoi gwybod nad oeddent yn dymuno cael eu hystyried i'w hailbenodi.

2. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ar 06 Mai 2021 i ystyried sut i lenwi'r lleoedd gwag ar y Cyngor, yn ogystal â'r lleoedd gwag dilynol am gadeiryddion is-bwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Enwebiadau felly ar gyfres o argymhellion i'r Cyngor, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

3. Wrth recriwtio aelodau annibynnol newydd ar y Cyngor am y flwyddyn academaidd 2020-21, roedd y Cyngor hefyd wedi penodi tri unigolyn i wasanaethu ar is-bwyllgorau yn y lle cyntaf, gan fwriadu iddynt ddod yn aelodau llawn o'r Cyngor wrth i gyfleoedd addas godi. Roedd dau o'r unigolion hyn wedi nodi y byddent yn hapus i gael eu penodi'n awr ar y corff llywodraethu.

4. Roedd ymarfer caffael ar y gweill er mwyn penodi asiantaeth recriwtio i weithio gyda'r Brifysgol i recriwtio aelod annibynnol i lenwi'r lle gwag sydd ar ôl ar y Cyngor, yn ogystal â nifer o leoedd gweigion a fyddai'n codi ar is-bwyllgorau. Roedd y medrau a'r profiad a fyddai'n cael eu targedu wrth chwilio wedi eu nodi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r penodiadau canlynol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol]:

    1. Yr Athro Syr Robin Williams am dymor ychwanegol o flwyddyn, yn dechrau ar 01 Awst 2021;

    2. Owen Evans a Sharron Lusher am dymor cychwynnol o bedair blynedd yr un ar y Cyngor, yn dechrau ar 01 Awst 2021;

    3. Mark Tweed yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd o 01 Awst 2021, am weddill ei dymor ar y pwyllgor hwnnw;

    4. Meri Huws yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio o 01 Awst 2021, am weddill ei thymor ar y pwyllgor hwnnw; a

    5. Dr William Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Buddsoddiadau o 01 Awst 2021, am weddill ei dymor ar y pwyllgor hwnnw.

**69. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Covid-19: Cofnod penderfyniadau (COU2021-128);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2021-129);

3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2021-130); a

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**70. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2021-131):

1. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (25 Chwefror 2021); a

2. Y Pwyllgor Enwebiadau (06 Mai 2021)

NODWYD

3. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.

**71. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

1. Ffarwelio

   Hwn fu cyfarfod olaf y Cyngor i Nate Pidcock, Llywydd UMAber a Moc Lewis, Llywydd UMCA. Diolchodd yr aelodau i'r ddau am eu cyfraniadau i'r corff llywodraethu yn ystod eu cyfnodau yn swyddogion sabothol a dymunwyd yn dda iddynt.